

Hen Storfa Bomiau, Glyn Rhonwy

Nodyn cyngor i bartïon â diddordeb

Mae Gweithgor Glyn Rhonwy yn gwahodd cyflwyniadau gan bartïon â diddordeb mewn datblygu yr hen storfa bomiau yng Nglyn Rhonwy.

Fel rhan o'r broses hon, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau profforma ar gyfer eu cynllun. Gwahoddir ymgeiswyr i amlinellu sut mae eu cynigion yn adlewyrchu'r Weledigaeth ar gyfer yr hen storfa bomiau, fel y'i cymeradwywyd gan y Gweithgor.

Mynegir y Weledigaeth ar gyfer Glyn Rhonwy yn ogystal â'r hen storfa bomiau yng Nghynllun Datblygu Glyn Rhonwy. Er i hyn gael ei greu rai blynyddoedd yn ôl, mae'r Cynllun a'r Weledigaeth wedi arwain y gwaith yng Nglyn Rhonwy ac maent yn dal i fod yn berthnasol heddiw.

I ddarparu gwybodaeth gefndirol ac i helpu partïon â diddordeb i fynd i'r afael â chyfaddasrwydd eu cynigion â Gweledigaeth Glyn Rhonwy, atgynhyrchwyd y dyfyniad isod.

Gweledigaeth

Denu'r math cywir o fuddsoddiad trwy fanteisio ar nodweddion unigryw Glyn Rhonwy i greu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd er budd cymunedau Gwynedd trwy gyfrannu at harddwch naturiol a chyfoeth diwylliannol ac ieithyddol yr ardal

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth hon, dywed y Cyngor y bydd datblygiadau cymwys yn unol â'r amcanion a ganlyn:

- Datblygiadau a fyddai'n creu cyflogaeth o ansawdd newydd i ardal Llanberis a thu hwnt.
- Datblygiadau a fyddai'n creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy trwy gydol y flwyddyn i fodloni anghenion penodol marchnad gyflogaeth Gwynedd.
- Datblygiadau a fyddai'n diogelu diwylliant a Chymreictod yr ardal er budd y gymuned leol.
- Datblygiadau o ran dylunio, graddfa a natur a fyddai'n diogelu amgylchedd naturiol eithriadol yr ardal ac amwynderau trigolion lleol.




Lleoliad

Mae Glyn Rhonwy wedi ei leoli ar gyrion pentref Llanberis sydd saith milltir i'r de o dref Caernarfon. Mae Llanberis yn ffinio gyda Parc Cenedlaethol Eryri ac wrth droed yr Wyddfa.

Ceir mynediad i'r safle o Y Glyn drwy dwnnel ac mae'n cynnwys compownd agored ac ardal dan do ar ddau lawr. Adeiladwyd y safle gan y Lywodraeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac fe'i defnyddiwyd yn flaenrol ar gyfer storio ordnans.

Amcangyfrifir mai cyfanswm arwynebedd y storfa fomiau yw 4.71 erw (1.69 hectar)



Glyn Rhonwy Bomb Store

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordhnans 100023387 - Cynigwr Gwynedd

Gwahodd Ceisiadau

Gwahoddir Datganiadau o Ddiddordeb gan ddatblygwyr sy'n awyddus i fuddsoddi yn yr ardal a chwarae rôl amlwg i ymgyrraedd â Gweledigaeth y Cyngor.

Bydd angen i ddatblygwyr gyflwyno eu Datganiad o Ddiddordeb ar ffurf Profforma Prosiect sydd wedi ei atodi i'r dogfen hwn gan gynnwys:

Rhan 1 : Manylion y Bwriad

Rhan 2 : Manylion Ariannol

Rhan 3 :Amserlen

Rhan 4 : Allbynnau'r Cynllun

Rhan 5 : Rheoli a Gweithredu'r Cynllun

Efallai y gwahoddir datblygwyr sydd ar y rhestr fer i roi cyflwyniad o'u cynigion ar gyfer y safle, gyda dyddiad a lleoliad i'w drefnu.

Y bwriad fydd cynnig cyfnod detholusrwydd i'r ddatblygwyr llwyddiannus er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatblygu manylion pellach. Fe fyddai unrhyw brydles ac/neu gytundeb cyfreithiol yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach ac ymgyrraedd â thargedau a osodir mewn amserlen a gytunir o flaen llaw. Bydd telerau'r brydles ac/neu gytundeb cyfreithiol i'w cytuno rhwng y Cyngor a'r datblygwr.

Yn ychwanegol i'r Profforma, gall datblygwyr gyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnodi eu cais.

Y mae'r Cyngor yn datgan :

- Manylion bras ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn prynu neu brydlesu ac nid ydynt yn ffurfio rhan o unrhyw gynnig ffurfiol na chytundeb.
- Credir bod manylion safle a ddarperir yma yn gywir. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw un sydd â diddordeb gymryd hyn yn ganiataol a dylent sicrhau fod y ffeithiau yn gywir drwy archwilio'r safle neu mewn unrhyw ddull arall.
- Nid oes gan unrhyw aelod o staff Cyngor Gwynedd yr hawl i wneud unrhyw ddatganiad neu warant mewn perthynas â'r safle.

Bydd disgwyl i ddatganiadau (mewn ffurf Profforma Prosiect), naill ai drwy e-bost neu drwy'r post, gael eu derbyn **erbyn 12:00 o'r gloch prynhawn Dydd Gwener, 9fed Medi 2022** (gweler isod manylion cyswllt)

Y mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod derbyn unrhyw Ddatganiad o Ddiddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hen safle storfa fomiau, cysylltwch â:

Colin Morris
Rheolwr Cefnogi Busnes
Gwasanaeth Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH

Rhif ffôn: 01286 679677

Ebost: busnes@gwynedd.llyw.cymru